***Adroddiad ar gynhadledd 'Rôl Senedd wrth Lunio Dyfodol Deallusrwydd Artiffisial Cyfrifol'***

***(28-30 Tachwedd 2025, Kuala Lumpur)***




## Hannah Blythyn AS ac Adam Price AS

## Cyflwyniad

Yn aml, caiff seneddau eu disgrifio fel “siopau siarad”. Yn Kuala Lumpur ddiwedd mis Tachwedd, cawsant eu hail-ddychmygu fel rhywbeth hollol wahanol: mecanweithiau byd-eang ar gyfer deallusrwydd ar y cyd sydd bellach yn gorfod dysgu sut i weithio ochr yn ochr â deallusrwydd artiffisial rhag ofn iddynt gael eu gadael ar eu holau gan y datblygiadau yn y maes hwn. Mae democratiaethau ledled y byd wedi cyrraedd pwynt lle mae’n rhaid iddynt benderfynu ar ffordd ymlaen sy'n cofleidio’r cyfleoedd y mae technolegau newydd yn eu cynnig, tra hefyd yn ceisio cyrraedd y nod o ddilyn dull sy'n seiliedig ar werthoedd i sicrhau bod y technolegau hyn yn cael eu cymhwyso a'u defnyddio mewn ffordd gyfrifol.

Mae'r adroddiad hwn yn olrhain hanes cynhadledd ‘Rôl Senedd wrth Lunio Dyfodol Deallusrwydd Artiffisial Cyfrifol’ (28–30 Tachwedd 2025, Kuala Lumpur) a gynullwyd ar y cyd gan yr Undeb Rhyng-seneddol, Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a Rhaglen Ddatblygu’r Cenhedloedd Unedig, gyda dros 200 o seneddwyr a staff o bob cwr o'r byd yn bresennol.

Cafodd y Senedd ei chynrychioli gan Hannah Blythyn AS ac Adam Price AS. Gwnaeth y cynrychiolwyr ganolbwyntio ar y materion a ganlyn:

- dod â safbwynt Cymreig penodol i drafodaethau am sgiliau, barn ddynol a chydnerthedd democrataidd yn oes deallusrwydd artiffisial; a
- dadlau bod yn rhaid i seneddau rannu seilwaith yn ogystal â gwersi – gan arwain at argymhelliad newydd, a ychwanegwyd ar gais ein dirprwyaeth, ar gyd-ddylunio platfform deallusrwydd artiffisial seneddol a rennir.

- Cysylltu gwersi byd-eang yn ôl i waith y Senedd ei hun ar lywodraethiant ym maes deallusrwydd artiffisial a chynllun AI Cymru Llywodraeth Cymru.






**1. Yr hyn yr oedd y gynhadledd yn ceisio'i wneud**


Roedd y trefnwyr yn glir ynglŷn â'u nod: nid digwyddiad generig arall ar "ddyfodol technoleg" oedd hwn. Yn hytrach, cyfarfod gwaith ydoedd ar sut y dylai seneddau, yn benodol, lywodraethu deallusrwydd artiffisial a'i ddefnyddio i wella democratiaeth yn hytrach na'i thanseilio.

Rhannwyd yr agenda yn ddau brif drywydd, ynghyd â chyfarfodydd llawn trawsbynciol:

- **Trywydd polisi deallusrwydd artiffisial** – sut i ddeddfu ar gyfer deallusrwydd artiffisial a goruchwylio datblygiadau yn y maes: o drawsnewid cymdeithasol a meithrin capasiti i'r broses ddeddfu, rhywedd a chydraddoldeb, yn ogystal â chydweithrediad rhyngwladol.
- **Trywydd deallusrwydd artiffisial yn y senedd** – yr ochr ymarferol: pa adnoddau deallusrwydd artiffisial sydd eisoes yn cael eu defnyddio mewn seneddau; beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio; pa sylfeini sy'n rhaid eu gosod a pha drefniadau llywodraeth sy'n rhaid eu gwneud.

Dros dridiau, symudodd y cyfranogwyr rhwng sesiynau llawn yn edrych ar y darlun mawr, astudiaethau achos manwl (o Mauritius i Chile a Gwlad Thai), gwaith mewn grwpiau bach

a sesiynau ymarferol, gan gynnwys gêm "tor carchar" yn dangos pa mor rhwydd yw hi i osgoi mesurau diogelwch.




---

## 2. Pum thema drawsbynciol

Er bod cynnwys y sesiynau'n amrywio, roedd set fach o themâu'n ailymddangos yn gyson.

### 2.1 Ni allwch hepgor y manylion

“Mae angen data sylfaenol hardd ar gymwysiadau deallusrwydd artiffisial hardd.” Roedd y frawddeg hon, a gafodd ei hailadrodd mewn gwahanol ffurfiau, yn crynhoi’r consensws: ni all seneddau nad ydynt eto wedi digideiddio eu harchifau, wedi moderneiddio eu llifau gwaith, wedi ystyried sut i gefnogi a chynnwys eu gweithlu, neu wedi glanhau eu data, ddisgwyl yn realistig i ddeallusrwydd artiffisial soffistigedig berfformio'n dda.

Roedd y neges yn syml ond yn glir:

- Digideiddio (trosi archifau papur yn ddata digidol strwythuredig).
- Digidoleiddio (offer modern ar gyfer drafftio, adolygu a chyhoeddi).

- Wedyn deallusrwydd artiffisial.

Clywodd y gynhadledd fod ceisio gwrthdroi'r drefn hon yn arwain at systemau annibynadwy a diffyg ymddiriedaeth gan y cyhoedd.

### 2.2 Capasiti, nid arian parod, yw'r dagfa wirioneddol


Mae arian yn bwysig, ond mae diffyg sgiliau, hyder a pherchnogaeth wleidyddol yn bwysicach fyth. Mynegodd cyfranogwyr o sawl senedd bryderon fod timau technoleg gwybodaeth yn “carlamu ymlaen” heb ymgysylltu â’r aelodau; disgrifiodd cyfranogwyr eraill gynlluniau peilot ym maes deallusrwydd artiffisial a lansiwyd heb unrhyw ymgynghoriad, strategaeth na goruchwyliaeth yn gysylltiedig â nhw.

Y bwlch gwirioneddol, a adleisiwyd ar draws sesiynau, oedd **capasiti:**

- Aelodau nad ydynt eto'n deall deallusrwydd artiffisial yn ddigon da i ddeddfu arno fel pwnc neu ei ddefnyddio'n ddiogel;
- staff sydd heb gael hyfforddiant digonol i weithredu a chynnal adnoddau deallusrwydd artiffisial; a
- sefydliadau nad ydynt eto wedi creu'r strwythurau traws-swyddogaethol–gan gwmpasu materion polisi, materion cyfreithiol, TGCh ac ymchwil–y mae seneddau llwyddiannus bellach yn dibynnu arnynt.

### 2.3 Data, sofraniaeth a’r bwlch deallusrwydd artiffisial sydd ar ddod

Y pryder strategol mwyaf oedd **pwy sy'n berchen ar y data a'r seilwaith sylfaenol, a phwy sy'n eu rheoli**. Roedd y cyfranogwyr yn poeni bod llawer o wledydd mewn perygl o ddod yn ddefnyddwyr parhaol o ddeallusrwydd artiffisial o dramor, heb fawr o reolaeth dros fodelau a hyfforddwyd ar ddata eu dinasyddion.




Roedd y "mewnwelediad bonws" mewn un sesiwn synthesis yn amlwg: gallai bwlch byd-eang mewn deallusrwydd artiffisial droi'n **anghydraddoldeb seneddol**, gyda gwladwriaethau cyfoethocach yn llwyddo i adeiladu systemau deallusrwydd artiffisial sofran tra bod gwladwriaethau tlotach yn dibynnu ar adnoddau 'parod i'w defnyddio' nad ydynt yn eu deall yn llawn nac yn gallu dylanwadu arnyn nhw.

Roedd y pryder hwnnw'n sail i ddiddordeb cyson mewn adnoddau a rennir, adnoddau agored ac adnoddau a ddatblygir ar y cyd – hynny yw, yr union faes yr oedd Argymhelliad 13, a hyrwyddwyd gan ein dirprwyaeth, yn ei drafod.

### 2.4 Ras democratiaeth yn erbyn amser

Roedd yr ail bryder a bwysleisiwyd yn un amserol. Mae systemau deallusrwydd artiffisial yn ateb cwestiynau mewn eiliadau; mae prosesau deddfwriaethol yn cymryd misoedd neu flynyddoedd. Yn un o'r trafodaethau i gloi sesiwn o'r gynhadledd, awgrymodd Adam Price fod seneddau'n beiriannau ar gyfer deallusrwydd ar y cyd ond eu bod mewn perygl o golli'r "rhyfel yn erbyn amser" os yw pobl yn canfod bod systemau deallusrwydd artiffisial yn ymateb i'w problemau'n gyflymach na gwleidyddiaeth.

Cafodd y pwynt hwn gryn effaith. Os daw dinasyddion i weld sefydliadau democrataidd fel cyrff araf, anhryloyw ac anllythrennog yn dechnolegol, tra bod adnoddau deallusrwydd artiffisial yn ymddangos yn gyflym, wedi'u personoli a rhugl, pwysleisiodd sawl ymyriad yn ystod y gynhadledd y gallai ymddiriedaeth erydu'n gyflym – yn enwedig mewn cyfnodau o argyfwng, pan fydd gwybodaeth anghywir a ffugiadau dwfn yn lledaenu'n gyflymach nag y gellir trefnu gwrandawiadau seneddol. Aethpwyd ati i geisio pwysleisio'r pwynt, er bod deallusrwydd artiffisial eisoes gyda ni ac o'n cwmpas ym mhob man, nad yw cyfeiriad deallusrwydd artiffisial wedi'i bennu ymlaen llaw ac y dylem fel seneddwyr ymdrin â deallusrwydd artiffisial o safbwynt y dinesydd yn hytrach na'r defnyddiwr.

### 2.5 Rhaid i farn ddynol barhau i gael effaith

Thema mwy gobeithiol yn ystod y gynhadledd oedd y syniad y gall deallusrwydd artiffisial weithredu fel "strwythur wybyddol" i seneddau, gan roi llais i farn ddynol, nid ei disodli. Fodd bynnag, mae hynny'n dibynnu ar sut mae sefydliadau'n dylunio ac yn llywodraethu eu defnydd o'r dechnoleg.

Ar y pwynt hwn, roedd **ymyrraeth Hannah** yn arbennig o effeithiol. Mewn trafodaeth ar sgiliau a mabwysiadu'r dechnoleg, rhybuddiodd rhag dileu'r capasiti i feddwl drwy drin deallusrwydd artiffisial fel ymateb awtomatig yn hytrach nag offeryn i gefnogi dysgu a myfyrio'n feirniadol.

Roedd y rhybudd hwnnw'n alinio'n glir â chofrestr risg y Senedd ei hun, lle mae gor-ddibyniaeth ar gymhorthion awtomataidd ac erydiad y gallu i feddwl ar lefel uchel wedi'u nodi'n benodol fel peryglon i'w rheoli yn hytrach na chynnydd i'w ddathlu.

---

## 3. Uchafbwyntiau'r sesiynau

Dyma gyflwyniad byr i'r prif sesiynau, gan nodi'r cysylltiadau mwyaf uniongyrchol â'n gwaith ni yma yng Nghymru.

### 3.1 Llywio trawsnewidiad cymdeithasol yn oes deallusrwydd artiffisial

Fe wnaeth y sesiwn agoriadol hon ar bolisi osod y tôn drwy leoli deallusrwydd artiffisial yng nghyd-destun y sefyllfa "aml-argyfwng" bresennol: newid hinsawdd, tensiynau geo-wleidyddol, anghydraddoldeb economaidd ac anhrefn gwybodaeth. Dangosodd pôl piniwn cychwynnol prif bryderon y cyfranogwyr: anghydraddoldeb, camwybodaeth, "newyddion ffug" a llywodraethu data oedd yn dominyddu'r cwmwl geiriau.

Rhybuddiodd siaradwyr y bydd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn dwysáu risgiau presennol (ffugiadau dwfn, camwybodaeth bersonol, seiber-ymosodiadau) ac yn arwain at risgiau newydd (arfau ymreolaethol, gwyliadwriaeth fiometrig dreiddiol). Roedd yr ymatebion seneddol a drafodwyd yn cynnwys:

- Pennu **llinellau coch** (er enghraifft, gwaharddiadau neu foratoria ar rai defnyddiau);
- rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg, wedi'i ysbrydoli gan yr UE a modelau eraill;
- rhwymedigaethau cryfach ar lywodraethau a darparwyr preifat mewn perthynas â thryloywder; a
- mecanweithiau seneddol pwrpasol i fonitro risgiau trawsffiniol a thraws-sector.

Y neges sylfaenol: ni ellir gwneud polisi ar ddeallusrwydd artiffisial ar wahân. Mae'n cyffwrdd â diogelwch, marchnadoedd llafur, iechyd, addysg a democratiaeth ar yr un pryd. Mae’n rhaid i ddeddfwrfeydd fod â'r gallu i nodi’r cysylltiadau hynny.

### 3.2 Meithrin capasiti cenedlaethol

Edrychodd yr ail sesiwn bolisi ar beth yw “capasiti” mewn gwirionedd. Gan ddefnyddio fframwaith syml – o blaid elw, o blaid pobl, o blaid y blaned, o blaid potensial – dadleuodd siaradwyr fod yn rhaid i bolisi ym maes deallusrwydd artiffisial basio pedwar prawf ar unwaith, sef: hyfywedd economaidd, budd cymdeithasol, cynaliadwyedd amgylcheddol a datblygiad dynol.

Dangosodd ymarfer “tor carchar” ymarferol pa mor rhwydd yw hi i osgoi mesurau diogelwch model penodol i ddatgelu awgrymiadau cudd neu gynhyrchu allbynnau niweidiol. Tanlinellodd yr ymarfer hwn, a oedd yn ymddangos yn ddigon chwareus, bwynt difrifol: os nad yw seneddwyr yn deall sut mae'r systemau hyn yn ymddwyn hyd eithaf eu gallu, ni allant oruchwylio eu defnydd mewn gwasanaethau cyhoeddus neu etholiadau mewn ffordd gredadwy.

Roedd yr argymhellion allweddol o’r gwaith grŵp yn cynnwys:

- **Mapio llinell sylfaen** i ddangos lle mae deallusrwydd artiffisial eisoes yn cael ei ddefnyddio gan lywodraethau, pa benderfyniadau y mae'n helpu i’w gwneud a pha fesurau diogelwch sydd yn eu lle.
- **Archwiliadau o'r gyfraith bresennol** (diogelu data, gwrth-wahaniaethu, seiberddiogelwch) cyn rhuthro i lunio Deddfau newydd sy'n benodol i ddeallusrwydd artiffisial.
- **Hyfforddiant i Aelodau a’u staff**, gyda “hyrwyddwyr AI” wedi’u dynodi ym mhob senedd.

### 3.3 Deddfu a goruchwylio

Gofynnodd y sesiwn hon gwestiwn twyllodrus o syml: beth all seneddau ei wneud nawr, gyda'r offer sydd ganddyn nhw yn barod?

Roedd enghreifftiau'n amrywio o Korea, lle cafodd 19 o Filiau yn ymwneud â deallusrwydd artiffisial eu cyfuno mewn un fframwaith hyblyg, i ddefnydd Bahrain o wrandawiadau arbenigol ar lywodraethu deallusrwydd artiffisial.

Roedd y prif gasgliadau yn bragmatig:

- Dylid trin deallusrwydd artiffisial nid dim ond fel pwnc ar gyfer deddfau newydd, ond fel lens i ddefnyddio **mesurau goruchwylio presennol** – cwestiynau, ymchwiliadau, gwrandawiadau, craffu ar y gyllideb – i ddatgelu niwed yn gynnar;

- creu neu rymuso pwyllgorau arbenigol neu grwpiau trawsbleidiol sydd â mandad clir i graffu ar ddeallusrwydd artiffisial ar draws sectorau; ac
- ymgorffori asesiad o'r effaith ar hawliau dynol ac ar gydraddoldeb mewn unrhyw ddeddfwriaeth newydd ynghylch deallusrwydd artiffisial.

Mae'r pwyntiau hyn wedi'u hadlewyrchu bron yn air am air yn argymhellion 6–8 o'r datganiad terfynol.

**3.4 Rhywedd a deallusrwydd artiffisial**

Arweiniodd y sesiwn ar rywedd at gasgliad di-flewyn-ar-dafod: mae systemau deallusrwydd artiffisial yn etifeddu'r data y cânt eu hyfforddi arnynt, ac mae llawer o'r data hynny'n cynnwys rhagfarn hanesyddol. Os na chaiff ei atal, gallai deallusrwydd artiffisial waethygu tangynrychiolaeth gan fenywod a grwpiau sydd wedi'u hymylu ym mhopeth o recriwtio i fynediad at wasanaethau cyhoeddus ac offer diagnosis. Roedd ffocws hefyd ar beryglon yr hyn sy'n dod i'r amlwg fel trais seiledig ar rywedd a hwylusir gan dechnoleg – a sut y gellid troi'r sefyllfa honno ar ei phen, gyda deallusrwydd artiffisial o bosibl yn cael ei ddefnyddio fel mesur ataliol yn erbyn trais seiliedig ar rywedd a hwylusir gan dechnoleg, boed hynny drwy reoleiddio, systemau cymorth i ddioddefwyr neu addysg. Gallai'r olaf o'r rhain fod yn gyfle i ni yma yng Nghymru, yn unol â'r gwaith ar lythrennedd digidol ac addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Roedd cyfranogwyr yn y sesiwn yn galw am y canlynol:

- Data wedi'u dadgrynhoi yn ôl rhywedd a sylw penodol i groestoriadoldeb wrth fynd ati i reoleiddio dealltwriaeth artiffisial a defnyddio'r dechnoleg yn y sector cyhoeddus;
- llywodraethu deallusrwydd artiffisial mewn modd sy'n ymatebol i rywedd, ochr yn ochr â mesurau rheoleiddio eraill ac addysg ar ddiogelwch ar-lein;
- ymchwiliadau seneddol i ragfarn sy'n seiliedig ar rywedd a chydraddoldeb mewn systemau deallusrwydd artiffisial (a adlewyrchwyd yn ddiweddarach yn Argymhelliad 9); a
- sicrhau bod timau mwy amrywiol yn dylunio systemau deallusrwydd artiffisial, ac yn archwilio systemau o'r fath, o fewn sefydliadau cyhoeddus a gwerthwyr.

Hefyd, ymrwymodd y cyfranogwyr i gymryd y camau gweithredu a ganlyn yn dilyn y gynhadledd:

O fewn tri mis:

1. Cyflwyno cwestiwn ysgrifenedig neu gwestiwn llafar i'r Gweinidog perthnasol ynghylch pa fesurau diogelwch sy'n bodoli i atal rhagfarn seiledig ar ryweddedd mewn systemau deallusrwydd artiffisial yn y sector cyhoeddus.

O fewn chwe mis:

2. Eirioli o blaid mesurau, a chefnogi mesurau o'r fath, i sicrhau bod menywod yn cael eu cynnwys yn deg mewn grwpiau seneddol sydd â'r gallu i wneud penderfyniadau ar y defnydd o dechnoleg yn fewnol, gwasanaethau digidol a mabwysiadu deallusrwydd artiffisial, yn unol â safonau cydraddoldeb ac arfer gorau.

O fewn deuddeg mis:

3. Cychwyn neu gefnogi o leiaf un ymchwiliad pwyllgor i archwilio rhagfarn ar sail rhywedd a lefelau amrywiaeth a chydraddoldeb mewn systemau deallusrwydd artiffisial sy'n berthnasol i'r awdurdodaeth gyfreithiol.
4. Eirioli dros ddiwygiadau perthnasol a phriodol i gyfreithiau ynghylch diogelwch digidol i ymdrin â chyfryngau synthetig nad ydynt wedi'u seilio ar gydsyniad.




**3.5 Cydweithrediad rhyngwladol**

Ceisiodd y sesiwn ryngwladol ddod i delerau â dau densiwn: deallusrwydd artiffisial fel technoleg fyd-eang a deallusrwydd artiffisial fel mater sydd â chyd-destunau lleol iawn. Mae gan seneddau rolau cyfansoddiadol gwahanol, ond maent yn wynebu problemau cyffredin: gwybodaeth anghymesur mewn perthynas â chwmnïau technoleg, llif data trawsffiniol a dinasyddion sy'n defnyddio llwyfannau sy'n cael eu rheoleiddio mewn mannau eraill.

Yma, cafodd sefydliadau fel yr Undeb Rhyng-seneddol, Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig eu portreadu nid dim ond fel 'siopau siarad', ond fel **llwyfannau ar gyfer bargeinio ar y cyd:** lleoedd lle gall seneddau llai rannu arbenigedd, datblygu safonau cyffredin a negodi'n fwy effeithiol â chwmnïau

technoleg mawr. Dyma'r rhesymeg y tu ôl i argymhellion 10–12 ynghylch deialog aml-randdeiliad a chyfnewid rhyng-seneddol.

### 3.6 Llwybrau tuag at fabwysiadu deallusrwydd artiffisial mewn seneddau

Dyma un o'r sesiynau mwyaf defnyddiol yn ymarferol. Disgrifiodd seneddau o Ewrop, Affrica, Asia ac America Ladin eu harbrofion ym maes deallusrwydd artiffisial – y negyddol a'r cadarnhaol.

Daeth rhai patrymau i'r amlwg:

- Roedd cynlluniau peilot cynnar yn tueddu i ganolbwyntio **ar dasgau ailadroddus a oedd yn cynnwys llawer o destun:** crynhoi dadleuon, dosbarthu dogfennau, chwilio a chyfieithu;
- yn aml, daeth llwyddiant o **brosiectau bach â chyllidebau isel** a oedd yn canolbwyntio ar ddefnydd clir o'r dechnoleg yn hytrach na strategaethau mawreddog. (Cafodd prosiect deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol cyntaf Senedd Ewrop ei redeg gan un aelod o staff ar gyllideb pedwar digid.);
- mae uchelgeisiau hirdymor yn tyfu: mae sawl senedd bellach yn archwilio modelau iaith pwrpasol sydd wedi'u hyfforddi ar ddata seneddol, neu offer a rennir ar gyfer rhanbarthau sydd ag ieithoedd cyffredin; ac
- mae'n rhaid i seneddau ddysgu mwy am ddeallusrwydd artiffisial, beth mae'n ei olygu a beth all ei wneud. Mae'n rhaid mabwysiadu dull strategol a chynhwysol a rhoi mesurau diogelwch yn eu lle i helpu i lywio defnydd, diogelwch data, camau gwirio, cyfrinachedd a thryloywder.

Dyma oedd cyd-destun **cyfraniad Hannah**: rhybuddiodd y dylai deallusrwydd artiffisial gefnogi, nid disodli, y gwaith o feithrin sgiliau dynol – yn enwedig ymhlith staff ac aelodau iau a allai gael eu temtio i allanoli'r broses o feddwl am faterion i beiriannau. Mae'r pryder hwnnw'n dilyn dadansoddiad risg y Senedd ei hun yn agos. Roedd hefyd yn amlwg, lle mae'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial wedi bod fwyaf llwyddiannus, fod aelodau etholedig wedi bod yn rhan o ddiffinio'r cyfeiriad – rhywbeth y dylai'r Senedd roi sylw iddo. Mae nifer o enghreifftiau anecdotaidd o ddefnydd gwahanol Seneddau o ddeallusrwydd artiffisial, a/neu eu dulliau gweithredu yn y maes hwn, y gellir eu rhannu ar wahân. Yn gryno, ni ddylai'r ffordd y mae seneddau yn ymdrin â deallusrwydd artiffisial gael ei gyrru gan feddalwedd fel Co-pilot yn unig; yn hytrach, dylai deallusrwydd artiffisial fod yn gydbeilot i'r Senedd.

### 3.7 Blociau adeiladu ar gyfer deallusrwydd artiffisial mewn seneddau

Roedd y sesiwn "blociau adeiladu" yn cynnig rhyw fath o lawlyfr gweithredu. Gan dynnu'n helaeth ar Ddeddf Deallusrwydd Artiffisial yr UE ac ymateb Senedd Ewrop iddi, dadleuodd

y siaradwyr fod angen tair colofn arnom ar gyfer sicrhau defnydd cyfrifol o’r dechnoleg, sef:

1. **Llywodraethu** – polisïau, fframweithiau risg, goruchwyliaeth foesegol a strwythurau clir ar gyfer gwneud penderfyniadau.
2. **Gallu technegol a data** – seilwaith modern a systemau data integredig.
3. **Gallu sefydliadol** – rolau, sgiliau, hyfforddiant a diwylliant.

Cafodd **Fframwaith Aeddfedrwydd Deallusrwydd Artiffisial yr Undeb Rhyng-seneddol**, sydd newydd ei lansio, ei gyflwyno fel adnodd diagnostig sy’n galluogi seneddau i asesu eu hunain ar draws meysydd megis llywodraethu, gallu technegol, gallu sefydliadol ac effaith ddemocrataidd. Datgelodd pôl piniwn byw nad oedd unrhyw senedd a oedd yn bresennol yn yr ystafell yn honni ei bod wedi cyrraedd lefel “arfer uwch” na “gosodwr safonau byd-eang”; roedd y rhan fwyaf wedi cyrraedd y camau cynnar, gan arbrofi gyda chynlluniau peilot a drafftio polisïau cychwynnol.

I Gymru, mae'r fframwaith hwn yn cynnig lens parod y gallai Comisiwn y Senedd adolygu ei waith ei hun ar ddeallusrwydd artiffisial drwyddo.

**3.8 Paratoi Seneddau ar gyfer oes deallusrwydd artiffisial**

Roedd y sesiwn olaf hon yn nhriawd y trywydd seneddol yn annog cyfranogwyr i feddwl yn ymarferol ac yn strategol am eu defnydd presennol o ddeallusrwydd artiffisial a'u defnydd o’r dechnoleg yn y dyfodol yn eu seneddau perthnasol – gan ddechrau o linell sylfaen ac olrhain trywydd i feincnodi yn ei erbyn. Gwnaed hyn drwy ofyn cwestiwn sylfaenol ar y cychwyn cyntaf: 'Beth mae llythrennedd digidol yn ei olygu a pham ei fod yn bwysig i ddeddfwyr a seneddau?' Nododd cyfranogwyr yr angen i sefydlu ac yna datblygu llythrennedd ym maes deallusrwydd artiffisial (a gwella sgiliau yn barhaus), yn ogystal â chynllun ar gyfer sut y gellid defnyddio’r dechnoleg hon mewn gwaith seneddol, ochr yn ochr â sefydlu'r canllawiau sydd eu hangen arnom i sicrhau bod y dechnoleg yn cael ei defnyddio’n gyfrifol ac yn foesegol. Roedd y drafodaeth yn cwmpasu ystod eang o feysydd, o ddiogelwch a chyfrinachedd i eglurder ynghylch defnydd effeithiol o deallusrwydd artiffisial a sut y gallai gynorthwyo’r gwaith o ymgysylltu â dinasyddion.



Mae'n bwysig bod seneddau'n rhoi'r ‘blociau adeiladu’ hyn yn eu lle, o gofio’r cwestiwn gan un cyfranogwr: “Sut allwch chi ddeddfu ar ddeallusrwydd artiffisial os nad ydych chi'n ei ddeall eich hun?”

---

## 4. Cyfraniadau ein dirprwyaeth

### 4.1 Sicrhau rôl ganolog i feddwl dynol (Hannah Blythyn AS)

Yn y trafodaethau ar y thema “Teithiau”, ymyrrodd Hannah i dynnu sylw at risg sydd weithiau’n cael ei thanbrisio mewn dadleuon mwy technegol: hynny yw, erydiad barn a sgiliau dynol. Rhybuddiodd yn erbyn y demtasiwn i drin deallusrwydd artiffisial fel llwybr byr sy'n disodli dysgu yn hytrach na'i gefnogi, yn enwedig mewn deddfwrfeydd lle mae cof sefydliadol a meddwl yn feirniadol yn asedau craidd.

Cafodd y sylwadau hyn eu hategu’n frwd gan gydweithwyr o seneddau bach a chanolig eraill, ac maent yn cyd-fynd â chofrestr risg ffurfiol y Senedd, sy’n nodi peryglon ynghylch “rhagfarn awtomeiddio” a gorddibyniaeth ar ddeallusrwydd artiffisial.

### 4.2 Fframio'r risg ddemocrataidd a chynnig platfform a rennir (Adam Price AS)

Yn un o’r trafodaethau i gloi sesiwn o’r gynhadledd, awgrymodd Adam Price fod seneddau’n beiriannau ar gyfer deallusrwydd ar y cyd ond eu bod mewn perygl o golli’r “rhyfel yn erbyn amser” os yw pobl yn canfod bod systemau deallusrwydd artiffisial yn ymateb i’w problemau’n gyflymach na gwleidyddiaeth, a bod yr ymateb hwnnw wedi’i bersonoleiddio’n well. Yn y senario hwnnw, gallai pobl fynd ati i osgoi sefydliadau democrataidd yn gyfan gwbl.

Gan adeiladu ar y diagnosis hwnnw, pwysodd ein dirprwyaeth am ateb pendant: **seilwaith seneddol a rennir**. Yn hytrach na bod pob senedd yn ceisio adeiladu ei hadnoddau ei hun o'r cychwyn cyntaf (ac, ar y cyfan, yn methu), neu ddibynnu'n llwyr ar lwyfannau masnachol, gwnaeth ein dirprwyaeth gynnig y dylai’r Undeb Rhyng-seneddol, Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, Rhaglen Ddatblygu’r Cenhedloedd Unedig a phartneriaid weithio gyda seneddau i gyd-ddylunio **platfform deallusrwydd artiffisial seneddol a rennir**, gyda nodweddion craidd cyffredin a chydrannau y gellir eu haddasu ar sail genedlaethol.

Cafodd y syniad hwn ei fabwysiadu'n frwdfrydig wrth ddrafftio'r ddogfen i grynhoi allbwn y gynhadledd ac mae bellach yn ymddangos ar ffurf **Argymhelliad 13**—ychwanegiad hwyr at y cyfathrebiad nad oedd yn rhan o'r drafft gwreiddiol. Mae'n ymrwymo seneddau i’r canlynol:

“Cymryd rhan, drwy’r Undeb Rhyng-seneddol, Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, Rhaglen Ddatblygu’r Cenhedloedd Unedig a phartneriaid rhyngwladol eraill, yn y gwaith o gyd-gynllunio platfform deallusrwydd artiffisial seneddol a rennir… a fyddai’n mynd i’r afael â bylchau mewn adnoddau, yn hwyluso cydweithio a rhannu gwybodaeth ar draws ffiniau, ac yn cefnogi seneddwyr a staff gyda’u gwaith achos a’u gwaith craffu, yn ogystal â gwaith drafftio deddfwriaethol a datblygu polisïau.”

I senedd fach fel ein Senedd ni, sy’n weithgar yn y gofod digidol, mae hyn o bosibl yn drawsnewidiol: mae'n cynnig llwybr at dechnoleg o ansawdd uchel na allem yn realistig ei hadeiladu ar ein pennau ein hunain, tra’n cynnal rheolaeth gyhoeddus, safonau moesegol a hygyrchedd dwyieithog.

**5. Beth mae hyn yn ei olygu i'r Senedd ac i Gymru**

Nid yw Comisiwn y Senedd a Llywodraeth Cymru yn dechrau o'r dechrau. Mae'r Comisiwn eisoes wedi sefydlu **Grŵp Llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial** a **Grŵp Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial** ac mae’n treialu adnoddau Microsoft Co-pilot ac wedi nodi risg corfforaethol yn sgil y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial, gydag is-risgiau manwl yn amrywio o ragfarn a rhithweledigaethau i breifatrwydd data, tryloywder, seiberddiogelwch a gorddibyniaeth ar awtomeiddio.

Yn y cyfamser, mae cynllun AI Cymru Llywodraeth Cymru yn nodi gweledigaeth ar gyfer defnydd moesegol, empathig, mentrus ac effeithiol o ddeallusrwydd artiffisial, wedi'i ategu gan bedair colofn strategol, sef: twf economaidd, addysgu Cymru, gweithredu’n deg a galluogi seilwaith.

Yn erbyn y cefndir hwnnw, y prif oblygiadau o Kuala Lumpur yw:

1. **Defnyddio Fframwaith Aeddfedrwydd Deallusrwydd Artiffisial y Undeb Rhyng-seneddol i feincnodi'r Senedd.**
   Dylai'r Comisiwn ystyried rhoi offeryn yr Undeb Rhyng-seneddol ar waith yn ffurfiol i asesu ein statws o ran llywodraethu, gallu technegol, gallu sefydliadol ac effaith ddemocrataidd, ac i nodi bylchau i ymdrin â nhw yn ystod y ddwy flynedd nesaf.
2. **Dyfnhau camau llywodraethu traws-swyddogaethol a’r gwaith o ymgysylltu ag Aelodau.**
   Mae grwpiau Llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial a Chyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial y Senedd eisoes yn adlewyrchu'r arfer gorau a welir yn rhyngwladol. Y cam nesaf yw parhau i sicrhau bod Aelodau’n rhan ganolog o’r broses, gan gynnwys drwy sesiynau briffio rheolaidd, gweithdai ymarferol a phenodi “hyrwyddwyr deallusrwydd artiffisial” trawsbleidiol yn y Senedd.
3. **Alinio arfer seneddol ag egwyddorion AI Cymru.**

Roedd trafodaethau'r gynhadledd ar degwch, cynhwysiant, mynediad dwyieithog, ymddiriedaeth y cyhoedd a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl yn cyd-fynd yn agos ag egwyddorion Llywodraeth Cymru o ran deallusrwydd artiffisial moesegol, empathig, mentrus ac effeithiol. Gall gwaith craffu seneddol ar fentrau deallusrwydd artiffisial Cymru ddefnyddio'r egwyddorion hynny fel meincnodau penodol.

4. **Blaenoriaethu sgiliau a llythrennedd i'r un graddau â thechnoleg.**
   Yn gyson ag ymyrraeth Hannah a nodyn risg y Comisiwn, dylid blaenoriaethu buddsoddiad cynaliadwy yng ngallu Aelodau a staff—fel bod deallusrwydd artiffisial yn gwella sgiliau yn hytrach na'u disodli. Mae hynny'n golygu cynnig hyfforddiant ar sut mae systemau'n gweithio, ble maen nhw'n methu a sut i herio allbynnau, nid dim ond sut i'w symbylu.
5. **Mynd ati'n rhagweithiol i lunio'r llwyfan a rennir, sef Argymhelliad 13 yn deillio o'r gynhadledd.**
   O ystyried ein rôl ni wrth sicrhau bod Argymhelliad 13 yn cael ei gynnwys, mae achos cryf dros i'r Senedd fod yn bartner gweithredol yn y gwaith dilynol a ganlyn:
   - Cyfrannu enghreifftiau o'r defnydd o'r dechnoleg (er enghraifft, chwiliadau dwyieithog, briffiau pwyllgorau, cyfathrebu â dinasyddion);
   - pwyso am fesurau llywodraethu cryf, tryloywder a safonau agored; a
   - sicrhau bod deddfwrfeydd llai ac an-fetropolitan fel ein Senedd ni yn cael eu trin fel partneriaid yn ystod y cam dylunio, nid dim ond fel defnyddwyr terfynol.

6. **Cryfhau gwaith craffu ar ddeallusrwydd artiffisial ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.**
   Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r trydydd sector. Gall y Senedd bellach ddefnyddio argymhellion y gynhadledd yn uniongyrchol—yn enwedig argymhellion 6 i 9—wrth ddylunio ei gwaith craffu: mapio achosion defnydd, comisiynu asesiadau effaith a chynnal deialogau cenedlaethol cynhwysol ar werthoedd a llinellau coch.
7. **Ystyried sut y gallai a sut y dylai Cod Ymddygiad y Senedd gyflwyno'r defnydd cyfrifol o ddeallusrwydd artiffisial**
   Mae angen i seneddau gadw i fyny ag esblygiad technoleg, ar yr un pryd â chael canllawiau clir ynghylch sut y bydd y dechnoleg hon yn cael ei defnyddio – yn gyfrifol – gan Aelodau etholedig. Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad wrthi'n trafod gwelliannau i'r Cod Ymddygiad i egluro defnydd Aelodau o gyfryngau cymdeithasol, sy'n cynnig cyfle ychwanegol i arwain y ffordd wrth nodi disgwyliadau clir ynghylch defnydd Aelodau o ddeallusrwydd artiffisial.

---

## 6. Y camau nesaf

Rydym yn awgrymu bod y Senedd yn cymryd y ddau gam dilynol ymarferol a ganlyn, a hynny ar unwaith:

1. **Asesiad o aeddfedrwydd a chynllun ffordd.**
   Gofyn i swyddogion beilota Fframwaith Aeddfedrwydd Deallusrwydd Artiffisial yr Undeb Rhyng-seneddol, cyn cyflwyno cynllun ffordd cryno sy'n amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y 12–24 mis nesaf ar o ran llywodraethu, arbrofi a'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial gan y Senedd. Dylai hyn gynnwys Aelodau etholedig a staff y Comisiwn, yn ogystal â chamau i ymgysylltu â chynrychiolwyr staff.

2. **Ymgysylltu ar Argymhelliad 13.**
   Drwy rwydweithiau'r Undeb Rhyng-seneddol a Chymdeithas Seneddol y Gymanwlad, dylid nodi parodrwydd y Senedd i helpu i lywio gwaith cynnar ar y platfform deallusrwydd artiffisial seneddol a rennir a sicrhau bod gofynion o ran y Gymraeg (a gofynion dwyieithog) yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf.

Dangosodd Kuala Lumpur nad oes gan unrhyw senedd yr holl atebion ar ddeallusrwydd artiffisial eto. Fodd bynnag, dangosodd y gynhadledd hefyd fod y partïon sy'n gofyn y cwestiynau cywir – ar ddata, sgiliau, moeseg a seilwaith a rennir – eisoes yn llunio'r dyfodol. Ein nod ni, fel deddfwrfa fach ond uchelgeisiol, ddylai fod sicrhau ein bod yn parhau'n rhan greiddiol o'r grŵp hwnnw.